
Cymru | Wales
Fenis | Venice
10

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Arwyddeg. Ceisiwn hefyd gynnig gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesnego ofyn amdani.

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran hygyrchedd a hoffech ymgeisio, gallwn eich cefnogi yn ystod y broses. Cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru i drafod hyn.

Mae gennym bolisi cyfle cyfartal ar waith.

Clawr blaen: Helen Sear, Poster i'r arddangosfa, ....the rest is smoke, 2015.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 05 |
| Y gymrodoriaeth | 05 |
| Cynnig y gymrodoriaeth | 06 |
| Pwy all fod yn gymrawd? | 08 |
| Sut olwg fydd ar y gymrodoriaeth? | 08 |
| Meini prawf dewis | 10 |
| Ymgeisio | 11 |
| Bod yn gymwys | 12 |
| Hygyrchedd | 12 |
| Cwestiynau? | 12 |
| Sut i gysylltu â ni | 12 |

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwahodd artistiaid, curaduron, awduron a gweithwyr creadigol ym maes y celfyddydau gweledol yng Nghymru, i ymgeisio am **Gymrodoriaeth Fenis Cymru 10**.

Hoffem gefnogi unigolion sy'n wynebu rhwystr i'w huchelgais rhyngwladol.

Croesawn yn arbennig geisiadau gan unigolion o gefndir a dangynrychiolir gan gynnwys oherwydd rhywioldeb, ethnigrwydd, anabledd a chefndir cymdeithasol.

**5pm ar 7 Gorffennaf 2022 yw'r dyddiad cau.**



James Richards
Migratory Motor Complex, gosodiad sain chwe sianel.
Music for the gift, 2017.
llun Jamie Woodley

# Cyflwyniad

Gan ddechrau yn 2003 bu'r Cyngor yn bresennol naw gwaith yn yr Arddangosfa Gelf Ryngwladol, Biennale Fenis.

Yn 2022 ataliom ein llaw i ailfeddwl am sut y gweithiwn yn y Biennale a beth mae'n ei olygu i Gymru.

Mae gwaith rhyngwladol yn bwysig i ni a'n celfyddydau gweledol. Hoffem gryfhau cysylltiadau â chynulleidfaoedd lleol a byd-eang. Ond rhaid ailystyried ein gwaith rhyngwladol, yr argyfwng hinsawdd a'n hymrwymiad i ehangu ymgysylltiad.

**Mae Cymru Fenis 10** yn rhaglen newydd o gyfleoedd i archwilio'r syniadau yma a datblygu'r celfyddydau gweledol yng Nghymru. Bydd yn ffordd wahanol a beiddgar o ymwneud â'r Biennale am y 10fed tro.

I ddysgu rhagor am ein hanes yn Fenis (2003–19), ewch i'n gwefan: Cymru yn Fenis Wales in Venice | Arts Council of Wales

Digwydd La Biennale di Venezia, un o wyliau celfyddydol mwyaf y byd, rhwng 23 Ebrill a 27 Tachwedd 2022.

> Dyma ragor o wybodaeth amdani:
> www.labiennale.org/en

# Y gymrodoriaeth

Mae'n grant unigryw am 6 mis i 10 unigolyn sy'n gweithio yn ein celfyddydau gweledol.

Treuliwch amser yn meddwl am eich gwaith rhyngwladol, cysylltu ag artistiaid eraill yn eich maes ac yn rhyngwladol ac ystyried cyfle a her y Biennale.

Hoffem gefnogi pobl â gwahanol brofiadau personol ac ar wahanol adegau yn eu gyrfa i'w helpu gyda'r rhwydweithiau, y sgiliau a'r wybodaeth i weithio'n rhyngwladol mewn ffyrdd newydd.

O Fedi 2022 hyd Chwefror 2023, cymerwch ran yn y canlynol:

- Rhaglen ddatblygu gan Artes Mundi.
- Ymchwilio ar eich liwt eich hun a chael hyfforddiant neu fentora.
- Mynd i'r Biennale neu ymchwilio iddi mewn ffordd ystyrlon.

# Cynnig y gymrodoriaeth

## Bydd yn eich datblygu'n broffesiynol i weithio'n rhyngwladol.

**Cewch tua 30 diwrnod datblygu ar draws y 6 mis (Medi 2022 hyd Chwefror 2023) fydd yn cynnwys:**

- Rhaglen ddatblygu gan Artes Mundi sy'n cynnwys mentora, gweithdai a sesiynau syniadau a dysgu ar-lein gyda chymrodyr eraill (8 diwrnod).
- digwyddiadau rhannu gan Artes Mundi mewn cyfres o sgyrsiau ehangach i ystyried gwaith rhyngwladol (2 ddiwrnod).

**I gefnogi eich datblygiad ar eich liwt eich hun (20 diwrnod):**

- Cyfle i archwilio eich ymarfer ac ymarfer artistiaid/mentoriaid eraill sy'n gweithio'n rhyngwladol a mynd i'r Biennale neu ei hystyried mewn ffordd ystyrlon.
- Gwerthuso rywfodd yr hyn a gyflawnoch ac a ddysgoch.

**Ariennir y gymrodoriaeth yn llawn gan gynnwys:**

- Grant o £15,000 am y cyfnod 1 Medi 2022-28 Chwefror 2023. Rhennir y grant yn £7,500 am eich amser i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau uchod a £7,500 am deithio, ymchwilio, deunyddiau, mentora unigol ac anghenion hyfforddi ar eich liwt eich hun.
- Ar ben eich grant talwn eich holl dreuliau am deithio, prydau bwyd a lluniaeth lleol am gyfarfodydd grŵp a drefna Artes Mundi.

**Cydweithiwn â chi i ddeall eich amgylchiadau unigol i'ch cefnogi'n llawn i gymryd rhan yn y rhaglen.**

Bydd llawer o'r gwaith ar eich liwt eich hun ac yn unigol. Byddwch yn creu cynllun datblygu gyda thîm prosiect Artes Mundi.

Rydym yn hyblyg o ran eich ymrwymiadau eraill. Nod y cyfle yw rhoi amser ichi ganolbwyntio ar eu datblygiad proffesiynol, o amgylch ymrwymiadau eraill. Ond disgwyliwn ichi roi blaenoriaeth, cyn belled ag y bo modd, i'r gweithgarwch penodol ac ymgysylltu â'r cymrodyr eraill yn ystod y 6 mis.

Hefyd mae gennym gyllideb arall i dalu am unrhyw ofynion hygyrchedd gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu, i'r rhaglen fod mor hyblyg a chynhwysol â phosibl. Byddai'r taliadau yma ar ben eich grant.



Tim Davies
Drift, (llun llonydd) 2011.

# Pwy all fod yn gymrawd?

## Mae'n agored i artistiaid, awduron a gweithwyr creadigol ym maes celfyddydau gweledol Cymru.

**Dylech:**

- Fod ag ymarfer creadigol yn y celfyddydau gweledol a 3 blynedd o brofiad.
- Fod ar adeg yn eich gyrfa i gael budd mawr o'r gymrodoriaeth.
- Dangos bod gwir angen ichi ddatblygu'n broffesiynol i weithio'n rhyngwladol.
- Nodi eich rhesymau dros gymryd rhan a sut y bydd eich ymarfer a'ch gyrfa'n elwa o'r elfennau unigol a grŵp.
- Disgrifio eich ymarfer a'ch gyrfa hyd yma a chynnig datblygiad proffesiynol sy'n ymateb i'r her gan nodi eich ymrwymiad i'n blaenoriaethau.

# Sut olwg fydd ar y gymrodoriaeth?

## Rydym am roi lle ichi feddwl a datblygu.

Bydd cyfle i gysylltu ag artistiaid a gweithwyr eraill sy'n gweithio'n rhyngwladol yn y maes a chymryd rhan mewn ymchwil a hyfforddiant gan ailddychmygu sut i weithio.

Hoffem ichi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a materion cyfiawnder hinsawdd:
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –
The Future Generations Commissioner for Wales.

Dyma'ch cyfle i archwilio'r Biennale ac ymweld â hi yn ôl eich dymuniad yng nghyd-destun eich ymarfer a'ch profiad personol.

Nid creu gwaith newydd yw pwrpas y grant.



Laura Ford
Glory, Glory
Somewhere Else: Artists from Wales, 2005.



# Meini prawf dewis

Aseswn geisiadau'n ôl:

1. Ansawdd yr ymarfer creadigol a thystiolaeth o greu gwaith.
2. Bodloni diben y gymrodoriaeth gydag anghenion datblygu clir.
3. Pa mor bosibl y bydd y cynnig gyda'r gyllideb ac yn ôl yr amserlen.
4. Cynnwys y cynnig a ddaw o brofiad personol neu wir ymholiad.

Hefyd bydd y dewiswyr yn ystyried pa effaith y caiff y grant ar eich datblygiad creadigol, ystod ymarfer ac adeg yrfa'r grŵp a chyfraniad y gymrodoriaeth at gelfyddydau gweledol Cymru yn y dyfodol.

Bedwyr Williams,
The Northern Hemisphere, cyfryngau cymysg,
The Starry Messenger, 2013.
llun Anna Arca

# Ymgeisio

1. Rhaid defnyddio ein porth ar-lein a rhaid cofrestru'n gyntaf. Dyma sut: Hafan · Cyngor Celfyddydau Cymru

   Os na allwch ddod o hyd i'r ffurflen neu os hoffech gymorth, cysylltwch â: **grantiau@celf.cymru**

2. Llenwch ffurflen gais am y gymrodoriaeth drwy ein porth.
3. Uwchlwythwch hefyd:

- Cynnig sy'n ymateb i'r cyfle a'r meini prawf dewis. Rhaid cynnwys gwybodaeth amdanoch, eich cefndir, eich profiad, eich ymarfer creadigol a'ch uchelgais rhyngwladol. Disgrifiwch eich anghenion datblygu a'ch meysydd ymchwil a hyfforddiant a sut yr hoffech ymgysylltu â'r Biennale.

  Gall hyn fod yn ysgrifenedig neu'n sain/fideo. Yr uchafswm yw 2 ochr o A4 neu 4 munud o sain/fideo.
- Cyllideb i nodi sut y defnyddiwch y grant i'w chyflwyno mewn tabl yn rhan o'ch cais. Nodwn gostau posibl yn y Cwestiynau Cyffredin.
- Hyd at 8 enghraifft o'ch gwaith a all fod yn lluniau llonydd, testun neu ddolenni i fideo ar-lein fel eich gwefan, Fimeo neu YouTube. Dylai'r fideo fod yn 4 munud ar y mwyaf ac ar gael ar-lein o 5pm ar 7 Goffennaf 2022 hyd 29 Gorffennaf 2022.
- CV (2 ochr A4 ar y mwyaf) gydag enw a manylion cyswllt dau ganolwr sy'n adnabod eich gwaith.

  Rhowch hyn oll mewn un ffeil (Word neu pdf). Dylai'r ffont fod o leiaf 12 pwynt ac ni ddylai ffeil fod yn fwy na 250MB.

  Rhaid cynnig pob fideo a darn sain fel dolen i'ch gwefan, Fimeo neu YouTube. Cofiwch gynnwys y cyfrinair os oes eisiau un.

  Ar ôl cael eich cais, rhoddwn wybod ichi.

4. Os yw'ch cais yn gymwys, aseswn ef. Bydd panel o Bwyllgor Ymgynghorol Fenis Cymru a gweithwyr gwadd yn dewis y cymrodyr.
5. Os llwydda eich cais, anfonwn Lythyr Derbyn Grant atoch. Mae penderfyniadau'r panel yn derfynol. Os na lwyddwch, eglurwn pam wrthych a chewch gynnig adborth hefyd
6. Ar ôl llofnodi a dychwelyd eich Llythyr Derbyn Grant ac ar ôl inni wirio eich manylion, rhoddwn 60% o'r grant ichi. Rhoddwn 30% wedyn yn ystod y prosiect a thalwn y 10% olaf ar ei ddiwedd.

**Cewch wybod am ein penderfyniad erbyn 29 Gorffennaf 2022.**

## Bod yn gymwys

- Rhaid ichi fyw yng Nghymru a gallu ymgeisio yn eich enw cyfreithiol.
- Rhaid ichi fod â chyfrif banc yn eich enw cyfreithiol. Mae rhagor am hyn yma.
- Ni dderbyniwn gynigion gan neb sydd mewn addysg ffurfiol amser llawn gan gynnwys astudiaethau ôl-raddedig.

## Hygyrchedd

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth i drafod sut y gallwn helpu gydag anghenion hygyrchedd.

## Cwestiynau?

Os hoffech wybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys neu ofyn cwestiynau eraill, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bost, ein gwefan neu'r cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: drwy'r ffurflen yno

Trydar: @Celf_Cymru

Atebwn mor brydlon ag y gallwn. Os ydych am gael galwad yn ôl, gadewch eich rhif ffôn.

## Sut i gysylltu â ni

03301 242733

9.00am — 5.00pm Dydd Llun — Dydd Iau


9.00am — 4.30pm Dydd Gwener

Cysylltwch â ni | Arts Council of Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

@Celf_Cymru

celfcymruarts



Sean Edwards
Undo Things Done, gweld y gosodiad, 2019.
llun Jamie Woodley

www.celf.cymru